
# Cydgysylltydd Marchnata Gweithrediadau Pecyn i Ymgeiswyr

Children North East

Because growing up can be hard













# Cynnwys


3 Yr Elusen

3 Cydgysylltydd Marchnata Gweithrediadau

7 Tâl, Buddion, Telerau ac Amodau

9 Sut i ymgeisio

# Yr Elusen

Mae Children North East yn elusen fawr sy'n eiriol dros blant yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ac sy'n gweithio ar draws y rhanbarth, gyda rhywfaint o waith yn ymestyn ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Rydyn ni'n deall y gall tyfu i fyny fod yn anodd ac rydyn ni eisiau i bob babi, plentyn a pherson ifanc fod yn hapus ac yn iach, a thyfu i fyny yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo cariad, yn wydn i'r heriau y gallant eu hwynebu, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus.

Mae gennym ethos cryf o ran hawliau plant ac rydym yn credu y gall newid cymdeithasol gwirioneddol, parhaol gael ei gyflawni pan fydd y rhai sy'n profi neu sydd wedi profi problemau yn arwain y newid hwnnw. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda babanod, plant a phobl ifanc, ac o fewn eu teuluoedd, ysgolion a chymunedau, gan ddarparu gwasanaethau, cymorth ac ymyriadau sy'n darparu llwyfan i geisio datrys problemau, gweithredu a darparu dulliau i unigolion a chymunedau fel y gallant gyflawni hyd eithaf eu gallu.

# Cydgysylltydd Marchnata Gweithrediadau

## Diben y Swydd

Bydd deiliad y swydd hon yn cefnogi'r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu, brandio ac ymgysylltu sy'n ymateb i wahanol leisiau a meithrin cysylltiadau allweddol ar draws rhanddeiliaid, y wasg a phartneriaid. Gan weithio'n agos gyda thimau mewnol a phartneriaid allanol, byddwch yn helpu i ffurfio deunyddiau cyfathrebu creadigol a hygyrch sy'n adlewyrchu lleisiau a phrofiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd heddiw.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda'r timau Gweithrediadau o fewn Children North East i ddatblygu gwaith cyfathrebu cadarn ar gyfer prosiectau parhaus, a bydd yn Gydlynydd Marchnata penodedig ar gyfer Lleihau Cost y Diwrnod Ysgol, sef ein gwaith partneriaeth gyda Resolve Poverty a Llywodraeth Cymru.

## Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Byddwch yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Rheolwr Cyfathrebu, nid oes unrhyw gyfrifoldebau rheoli llinell ar gyfer y swydd hon.

## Y Prif Gyfrifoldebau

- Cyd-greu asedau cyfathrebu a brandio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd, gan sicrhau bod eu lleisiau yn llywio naws y prosiect.

- Sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau yn cyd-fynd â chanllawiau brand Children North East.
- Cynhyrchu cynnwys ar draws ystod o sianeli, gan gynnwys y wasg, cyfryngau cymdeithasol, pecynnau cymorth, a deunyddiau marchnata ffurfiol ac anffurfiol.
- Casglu a dehongli data i gynhyrchu cynnwys marchnata pwrpasol sy'n anelu at sicrhau effeithiau bwriedig.
- Datblygu a chyflwyno cynlluniau cyfathrebu gyda chefnogaeth y Rheolwr Cyfathrebu.
- Gweithio gyda thimau gweithredol ar draws Children North East - gan gynnwys Iechyd Rhywiol, Poverty Proofing, ac Iechyd Meddwl - er mwyn creu asedau a chynlluniau cyfathrebu sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc.

**Lleihau Cost y Diwrnod Ysgol**

Mae Children North East, Resolve Poverty a Llywodraeth Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth i gyflwyno rhaglen tair blynedd sydd wedi'i chynllunio i leihau cost y diwrnod ysgol a lliniaru effeithiau tlodi ar ddysgwyr ledled Cymru. Bydd y rhaglen yn weithredol o fis Ebrill 2026 hyd fis Ebrill 2029, a bydd yn cefnogi ysgolion, awdurdodau lleol, dysgwyr a theuluoedd i waredu rhwystrau ariannol i addysg a sicrhau bod pob plentyn yn gallu ffynnu, waeth beth fo'r amgylchiadau economaidd.

Mae'r rhaglen yn rhan ganolog o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau cydraddoldeb mewn addysg a'i chenhadaeth ehangach i fynd i'r afael â thlodi plant.

- Fel rhan o'r swydd hon, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain y gwaith cyfathrebu ar gyfer y prosiect hwn a'r prif gyfrifoldebau fydd;
- Cydweithio â Thîm Poverty Proofing a Rheolwr Cyfathrebu Children North East, Swyddog Polisi Tlodi Resolve a chydweithwyr Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a chyflwyno cynllun cyfathrebu mewn partneriaeth â'r Rheolwr Cyfathrebu a Rheolwr Tîm y Diwrnod Ysgol.
- Nodi a meithrin perthnasoedd allweddol gyda rhanddeiliaid, y wasg a phartneriaid.
- Cefnogi'r gwaith o ddosbarthu adnoddau ar draws sawl hyb digidol
- Creu asedau digidol a phrint yn unol â safonau brand Children North East.

## Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol

- Y gallu i weithio mewn tîm, i gyfathrebu'n effeithiol ac i reoli terfynau amser.
- Sgiliau dylunio ar draws cyfryngau print a digidol.
- Profiad helaeth o waith ysgrifennu copi ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- Ar gael i deithio i Gymru 2-3 gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd allweddol.

## Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau sy'n ddymunol

- Profiad blaenorol o gydweithio â phobl ifanc
- Y gallu i siarad Cymraeg

## Nodweddion Personol

- Ymwybyddiaeth o bolisi cymdeithasol, neu ddiddordeb brwd mewn ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon.

## Rolau a Chyfrifoldebau o ran Iechyd a Diogelwch

- Mae gan gyflogeion/gweithwyr sesiynol ddyletswydd statudol i gymryd gofal rhesymol ohonynt eu hunain ac eraill y gallai eu gweithredoedd neu hepgoriadau yn y gwaith effeithio arnynt.

- Rhaid i gyflogeion/gweithwyr sesiynol hefyd gydymffurfio â threfniadau iechyd a diogelwch Children North East.

## Dyletswyddau Ychwanego

- Golyga natur gwaith Children North East y gall tasgau a chyfrifoldebau o fewn nifer o amylchiadau fod yn anrhagweladwy ac yn amrywiol. Felly, disgwylir i'r holl staff a gweithwyr sesiynol ymgymryd â gwaith nad yw'n cael ei nodi'n benodol yn y swydd-ddisgrifiad. Bydd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn cyd-fynd â'r tasgau a'r dyletswyddau rheolaidd.

# Gwobrwyon, Buddion, Telerau ac Amodau

## Cyflog

£29,024 i £31,856 y flwyddyn (Pwyntiau Graddfa 29-32) (pro-rata am 30 awr). Nodwch fod y cyflog cychwynnol a gynigir ar waelod y raddfa fel rheol.

## Oriau

Wythnos waith arferol yw 37 awr neu 30 awr. Oherwydd natur amrywiol y dyletswyddau, bydd angen hyblygrwydd o ran patrwm gwaith a gall fod gofyn gweithio rhai nosweithiau. Gellir cymryd amser i ffwrdd yn lle'r oriau hyn trwy drafod â'r rheolwr llinell. Rydym yn falch iawn o fod yn gyflogwr hyblyg. Mae croeso i chi drafod unrhyw geisiadau i weithio'n hyblyg yn y cyfweliad.

## Lleoliad Gwaith

Mae'r swydd hon wedi'i lleoli gyda Children North East, 89 Denhill Park, Newcastle upon Tyne, NE15 6QE, ac mae opsiynau gweithio hybrid o gartref ar gael.

## Hyd y Contract

Mae'r swydd hon yn swydd barhaol.

## Hawl i Wyliau

Mae gan weithwyr llawn amser hawl i 30 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau cenedlaethol -statudol a chyffredinol. Bydd hyn ar sail pro rata ar gyfer staff rhan-amser.

## Cyfnod Prawf

Bydd cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer y swydd hon.

## Lwfans Car

Mae lwfans defnyddiwr car achlysurol ar gael i ddeiliad y swydd hon.

## Cyfnod o rybudd

Mae angen dau fis o rybudd naill ai gan y cyflogai neu'r sefydliad (un mis yn ystod y cyfnod prawf).

## Buddion i Rieni

Mae cynllun tâl mamolaeth galwedigaethol ar gael i staff sydd â 12 mis o wasanaeth parhaus ac rydym yn cynnig 2 wythnos o absenoldeb partner/tadolaeth ar dâl ll awn. Rydym hefyd yn cynnig cynllun tâl mabwysiadu galwedigaethol ar gyfer staff sydd â 12 mis o wasanaeth parhaus.

## Tâl Salwch

Mae Children North East yn gweithredu cynllun tâl salwch galwedigaethol.

## Cynllun Pensiwn

Mae yna gynllun pensiwn staff lle mae'r sefydliad hefyd yn cyfrannu 7.25% o gyflog aelodau st aff.

## Gofal Iechyd

Mae gan bob aelod o staff sydd â chontract dros gyfnod o ddeng mis hawl i ymuno â chynllun gofal iechyd preifat y sefydliad.

## Cynllun Cynilo

Mae cynllun cynilo ar gael fel y gall staff ddewis arbed rhan o'u cyflog.
Yna caiff hyn ei dalu'n ôl i staff ar gais.

## Pàs bws

Gellir talu cost Pàs bws blynyddol a ddefnyddir ar gyfer gwaith aelod o staff mewn 12 swm misol, wedi'i dynnu o'i gyflog.

# Sut i Ymgeisio

Ewch i adran "Our Vacancies" ein gwefan yn www.children-ne.org.uk/work-with-us/vacancies i ymgeisio. Nodwch na fyddwn yn derbyn CV.

Rydym yn croesawu ystod amrywiol o geisiadau ac yn frwd dros hyrwyddo cydraddoldeb, a gwerthfawrogi amrywiaeth. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob person cymwys addas, yn enwedig ymgeiswyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan fod y gr wpiau hyn ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithlu.

## Dyddiad cau

12 o'r gloch, ddydd Gwener 17 Gorffennaf.

## Dyddiad cyfweliad

Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos a fydd yn cychwyn ar 27 Gorffennaf.

## Cyswllt

Cysylltwch â'n tîm Adnoddau Dynol os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y swydd drwy ffonio 0191 256 2444 neu anfon e-bost at hr.team@children-ne.org.uk